**LGH-11-01 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2001 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 11.50am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| Adam Peat | Cyfarwyddwr, Y Grp Llywodraeth Leol a Thai |

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol; |
| Alan Thornton | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| Lisa James | Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Mike Harmer | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Geoff Marlow | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Roger Bonehill | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Dywedodd y Cadeirydd iddi dderbyn cais gan Cymuned am gael rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor a gwahoddodd farn yr aelodau ar hynny. Teimlid y dylid rhoi pob cyfle i fudiadau annerch y Pwyllgor. Ymrwymodd y Cadeirydd i gysylltu â Cymuned i'w hysbysu o benderfyniad y Pwyllgor. Byddid yn ystyried pa bryd y gellid cynnwys y cyflwyniad yn y flaenraglen waith.

O ran yr ymateb i gylch cynllunio strategol a chynllunio'r gyllideb 2001, cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r ymateb drafft, a oedd wedi ei gylchredeg.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

**Item 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;

- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Rhoddodd y Gweinidog ei hadroddiad llafar ac ymrwymodd i ddarparu copi i'r aelodau. Mae'r adroddiad llawn ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r aelodau y cynnydd a wnaethpwyd o ran sefydlu'r uned cydraddoldeb ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Byddai'n cynorthwyo i ddatblygu'r ymarfer gorau ym maes cyfle cyfartal o fewn llywodraeth leol.

- Roedd y Pwyllgor yn falch bod enwebiadau pellach i gael eu caniatáu ar lefel is na lefel wardiau o ran yr ardaloedd sydd i'w cynnwys yn y rhaglen *Rhoi Cymunedau'n Gyntaf*. Yn arbennig, cefnogai'r penderfyniad i annog enwebiadau arloesol wedi'u seilio ar y cysyniad o ‘Gymunedau Buddiant’ gan fynd gam ymhellach tuag at ddileu'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn ardaloedd gwledig.

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhestr i'r aelodau o'r cynlluniau sector gwirfoddol i fynd i'r afael â digartrefedd a phroblemau'r rhai sydd heb do uwch eu pen, a gymeradwywyd i gael cyllid.

- Cafwyd rhywfaint o drafod ar Strategaeth y DU ar Dlodi o ran Tanwydd. Awgrymwyd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gyflwyno systemau gwresogi olew ac i ymestyn y gwasanaethau nwy i ardaloedd gwledig. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar Strategaeth Tlodi y DU pan fydd wedi'i chwblhau.

- Nododd y Pwyllgor y gwaith a wnaethpwyd hyd yma ar sefydlu Cyfamodau Cyfranogiad Tenantiaid, a oedd yn golygu cytundebau lleol rhwng landlordiaid cymdeithasol a'u tenantiaid. Roedd yna deimlad y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod â rôl ganolog yn y gwaith o ddatblygu cyfamodau ac y dylai, os oes raid, ganoli er mwyn hybu cytundeb rhwng y rhai sydd â buddiant. Ymrwymodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor am ganlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd Cyfamodau Cyfranogiad Tenantiaid.

- Cafwyd rhywfaint o drafod ar y prosiectau peilot i roi prawf ar y modelau newydd i ddyrannu tai cymdeithasol. Teimlai'r aelodau y byddai angen gwerthuso'r prosiectau presennol yn fanwl, yn cynnwys ‘model Delft’ yn ardal Caerffili, cyn mabwysiadu dull newydd o ymdrin â gosod tai cymdeithasol.

- Croesawai'r aelodau y cynnydd a wnaed o ran sefydlu Uned Data Llywodraeth Leol Cymru.

Byddai'r uned yn datblygu ac yn rheoli ystod o wasanaethau ystadegol i gwrdd ag anghenion a gofynion gwybodaeth llywodraeth leol yng Nghymru. Teimlid y byddai'r uned yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer casglu a chofnodi data ystadegol penodol ar Gymru, ac yn gymorth i ganfod gwelliannau posibl yn y drefn casglu data. Cytunai'r aelodau ei bod yn hanfodol sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol personol yn cael ei chynnwys. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu manylion rhaglen waith Uned Data Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor.

**Eitem 4: Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol – Adolygu gweithrediad y Cynllun: LGH-11-01 (p.1)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol roi adroddiad blynyddol ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, a fabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2000. Dywedodd fod yr adolygiad cyntaf o weithrediad y cynllun wedi amlygu camau cadarnhaol ymlaen a chydweithio gwirioneddol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol. Byddid yn gwneud gwaith pellach i wella cysylltiadau, ymgynghori ac i hwyluso rhannu gwybodaeth.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad ar yr adolygiad o flwyddyn weithredol gyntaf Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol. Teimlid bod yr adroddiad yn tynnu sylw at bethau o bwys a gyflawnwyd gan y cynllun hyd yma, a oedd i'w priodoli i fabwysiadu trefn o weithredu drwy bartneriaeth, gan gynnwys cyd-drafodaethau. Cytunwyd y dylid parhau i weithio er mwyn adeiladu ar lwyddiant y cynllun ac i gryfhau'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol.

- Roedd yr aelodau o blaid cyflwyno mesurau a fyddai'n gwella'r cysylltiadau rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol ymhellach. Yn arbennig, roedd yn hanfodol datblygu cysylltiadau agosach rhwng y Cyngor Partneriaeth a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ac i gydlynu deunydd pwnc.

- Cafwyd rhywfaint o drafod ar ddatblygu'r fframwaith ar gyfer cytundebau polisi. Croesawai'r Pwyllgor y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma o ran sefydlu cytundebau polisi effeithiol gydag awdurdodau lleol. Nodwyd mai'r awdurdodau unigol ar y cyd â'r Gweinidog a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fyddai'n pennu'r targedau a'r camau gweithredu. Byddai hyn yn galluogi cytundebau polisi unigol i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod â phapur gerbron ar gytundebau polisi awdurdodau lleol.

- Cytunai'r Pwyllgor y byddid yn cynyddu atebolrwydd o fewn llywodraeth leol ymhellach drwy gyflwyno'r fframwaith moesegol newydd. Roedd yna beth pryder yngln â chynnwys cod ymddygiad i weithwyr llywodraeth leol o fewn y telerau a'r amodau cyflogaeth, a allai arwain at broblemau posibl ymysg y gweithlu presennol. Rhagwelid y byddai awdurdodau lleol yn tywys materion yn ymwneud â gonestrwydd yn eu blaen ar y cyd â'r undebau llafur. Nododd yr aelodau fod yr undebau llafur wedi'u hysbysu am y rheoliadau drafft ar y cod ymddygiad i weithwyr yn ystod yr ymgynghori ynghylch y fframwaith moesegol newydd.

- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig rhoi cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol ar Bartneriaethau Cyhoeddus Preifat a Mentrau Cyllid Preifat (PPP/PFI). Roedd yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu cyngor ac arweiniad, a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i gyrchu at gymorth o ansawdd uchel i gynorthwyo prosiectau PPP/PFI posibl.

**Eitem 5: Lwfansau cynghorwyr – Ystyried yr adroddiad terfynol:**

**LGH-11-01 (p.2)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod yr astudiaeth a wnaethpwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol, Birmingham, wedi cynnwys dadansoddiad trylwyr a helaeth o lwfansau cynghorwyr. Roedd o'r farn bod y casgliadau ar y lwfans sylfaenol a'r lwfans cyfrifoldeb arbennig yn deg a gwrthrychol, o ystyried cyfrifoldebau ychwanegol cynghorwyr o dan y strwythur rheoli gwleidyddol newydd.

5.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai'n tywys yr argymhellion ar lwfansau cynhalwyr a theithio a chynhaliaeth yn eu blaen. Byddai'r cynigion ynghylch pensiynau, budd-daliadau, trethu a dileu'r rhwystrau rhag dod yn gynghorydd yn cael eu harchwilio ymhellach. Yn ogystal, dywedodd fod gwaith ar y gweill ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chyrff cydraddoldeb statudol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yngln â rôl cynghorwyr a llywodraeth leol. Byddai'n rhaid rhoi sylw i ddelwedd cynghorwyr er mwyn annog unigolion i ystyried sefyll i gael eu hethol.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr adroddiad manwl ar lwfansau cynghorwyr. Roedd yna gefnogaeth gref i'r lwfans sylfaenol o £9,907 a gâi ei awgrymu a'r chwe band o lwfansau cyfrifoldeb arbennig. Roedd y rhain yn asesiad teg, a adlewyrchai natur a maint gwaith cynghorwyr yn ogystal â'r cyfrifoldebau llawn her a'r cynnydd yn y baich gwaith a ddeilliai o'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd. Teimlai'r aelodau y dylid ystyried y ffigyrau fel cyfraddau uchaf y lwfansau.

- Roedd yna gefnogaeth i gyfyngu nifer y Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig sy'n daladwy i ddim rhagor na 50 y cant o gynghorwyr. Teimlid na ddylai Lwfansau Cyfrifoldeb Arbennig gael eu neilltuo'n llwyr ar gyfer grwpiau sy'n rheoli ond y dylid cydnabod rôl a chyfrifoldebau

gwrthbleidiau. Yn arbennig, teimlid y dylid, fel yr ymarfer gorau, annog penodi aelod o wrthblaid yn gadeirydd Pwyllgor Manylu awdurdod lleol ac y dylid derbyn tâl digonol wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn.

- Cydnabu'r aelodau fod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod y system budd-daliadau yn fwy cydnaws â gwasanaethu'r cyhoedd ym maes llywodraeth leol. Roedd yna gytundeb cryf y dylai lwfansau cynghorwyr fod yn ddigonol i warchod rhag caledi ariannol a bod angen ystyried unigolion sy'n hawlio budd-daliadau lles yn ofalus. Teimlid y byddai colledion incwm posibl yn sicr o atal darpar ymgeiswyr rhag sefyll i gael eu hethol.

- Roedd yna gefnogaeth gref i'r argymhellion a wnaethpwyd i gael gwared â'r rhwystrau rhag ymgymryd â gwasanaeth cyhoeddus ac annog pobl i sefyll i gael eu hethol. Cytunai'r aelodau ei bod yn bwysig cyflwyno mesurau a fyddai'n annog grwpiau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol i sefyll i gael eu hethol i'r Cyngor, er enghraifft menywod a lleiafrifoedd ethnig. Yn arbennig, teimlai'r Pwyllgor y dylid targedu pobl ifanc gyflogedig fel darpar ymgeiswyr a bod angen i awdurdodau lleol ystyried yr arferion gorau a fyddai'n hwyluso hyn, er enghraifft, cynnal cyfarfodydd ar adegau sy'n gyfleus o safbwynt oriau gwaith. Cytunai'r aelodau fod angen gwneud rhagor o waith i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl cynghorwyr a llywodraeth leol ac y byddai hyn yn cynyddu cyfranogiad yn y broses ethol ymhellach.

- Roedd yna gefnogaeth gref i Lwfans Dibynyddion a Gofal Plant. Fodd bynnag, roedd yna bryder bod yr amodau cymhwyso yn rhy gyfyng. Nid oedd yr oedran hynaf o 14 oed yng nghyswllt y lwfans gofal plant yn ystyried plant ag anableddau neu anghenion arbennig o gwbl ac roedd angen diffinio darparwyr gofal plant yn fwy caeth. Teimlid ei bod yn bwysig talu'r un cyfraddau i'r rhai sy'n cynnal yr henoed neu ddibynyddion ar draws yr awdurdodau lleol. Yn ogystal, nid oedd y cyfyngiadau a osodwyd ar dalu am ofal plant, gan gynnwys aelodau o'r teulu, yn cydnabod y gellid cyfiawnhau talu mewn achosion o'r fath. Cytunodd y Gweinidog i ystyried y Lwfans Dibynyddion a Gofal Plant ymhellach wrth iddi ystyried lwfansau cynghorwyr a gwahoddodd y Cadeirydd i ddod i'r cyfarfod gyda CLlLC i drafod y materion a godwyd.

- Croesawai'r Pwyllgor y cynllun diswyddo a oedd i'w gyflwyno i wobrwyo cynghorwyr a fu'n gwasanaethu am gyfnod hir. Cytunwyd y byddai cyflwyno cynllun yn golygu y gallai aelodau newydd gael eu hethol.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys mater lwfansau cynghorwyr yn ei flaen. Cytunodd y Gweinidog i ystyried awgrym y Pwyllgor i ostwng lwfansau cynghorwyr sydd hefyd yn Aelodau o'r Cynulliad.

**Eitem 6: Cyllid llywodraeth leol – Adroddiad ar y camau a gymerwyd hyd yma i adolygu system gyllid llywodraeth leol: LGH-11-01 (p.3)**

6.1 Dywedodd y Gweinidog fod y papur ymgynghorol ‘Symleiddio'r System: Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru’, a gyhoeddwyd ym Medi 2000, yn cyflwyno gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y system gyllid. Bu'r ymatebion i'r papur yn help i nodi nifer o ddiwygiadau allweddol. Câi'r diwygiadau hynny y gellir eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth eilaidd eu rhoi ar waith cyn gynted ag sy'n ymarferol. Fodd bynnag, nid oedd yn debygol y câi'r rheini y mae'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol i'w rhoi ar waith eu cyflwyno tan hydref 2002.

6.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y cynnydd a wnaethpwyd hyd yma ar y meysydd sydd i'w diwygio yn system gyllid llywodraeth leol. Cefnogai'r aelodau y gwaith a oedd yn dal i fynd rhagddo ar fformiwla'r Asesiad Gwario Safonol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau yn ddull o ddosbarthu cymorth refeniw i awdurdodau lleol yng Nghymru sydd ar seiliau gwrthrychol. Nodwyd y gallai'r data am y gwasanaethau cymdeithasol personol, a gâi ei fwydo i mewn i'r fformiwla, arwain at fân welliannau.
- Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad ar yr adolygiad o grantiau penodol o fewn cyllid llywodraeth leol.
- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â gallu cynghorau i godi arian yn lleol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cwrdd â chynrychiolwyr o CLlLC yn fuan i drafod drwy ba ddulliau addas y gellid cyflawni hyn ac ymrwymodd i ddarparu adroddiad ar ffrwyth y trafodaethau hyn.
- Teimlwyd y dylid cyflwyno mesurau diogelu deddfwriaethol priodol law yn llaw â'r ‘System Fenthyca Ddarbodus’ a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol fenthyca er mwyn gwneud buddsoddiadau cyfalaf heb gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

- Nododd y Pwyllgor fod cynllun trethu atodol yn cael ei ddatblygu ar gyfer Cymru ynghyd â chynllun cymorth gyda threthi ar gyfer busnesau bach. Teimlid y dylid gwneud gwaith pellach i gynnig cymaint â phosibl o gymorth i fusnesau gwledig yr effeithiwyd yn andwyol arnynt gan glwy'r traed a'r genau. Awgrymwyd y byddai codi trethi busnes ar lefel leol yn annog y sector busnes i ennyn perthynas fyw gyda'r awdurdodau lleol ac yn hwb pellach i weithredu drwy bartneriaeth. Dywedodd y Gweinidog fod cyfres o opsiynau ar gael i awdurdodau lleol, y byddai angen edrych arnynt yn fwy manwl. Cytunodd i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar ei thrafodaethau yngln â threthi busnes.

6.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys yr adolygiad o system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn ei flaen.

**Eitem 7: Tai – Ystyried y rhaglenni ymchwil: LGH-11-01 (p.4)**

7.1 Dywedodd y Gweinidog fod y rhaglen ymchwil tai wedi'i bwriadu i fod yn gefn i amcanion tai'r Cynulliad Cenedlaethol ac i ddarparu'r dystiolaeth sy'n ofynnol er mwyn tywys y Strategaeth Dai

Genedlaethol yn ei blaen. Câi'r rhaglen ei harwain gan gyngor y Panel Ymgynghorol ar Ymchwil Tai, a oedd yn cynnwys ystod eang o sefydliadau tai er mwyn sicrhau bod pob buddiant yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

7.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r prosiectau a oedd wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill 2001-02 yn gryf. Croesawai'r astudiaeth ar fesurau gwresogi ac ynysu ychwanegol y gellid eu cynnig drwy'r Cynllun Newydd Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref i dai mewn ardaloedd gwledig nad oes cyflenwad nwy ar gael iddynt. Cytunai'r aelodau fod systemau gwresogi sy'n gweithio ar olew a phaneli solar yn cynnig opsiynau dichonadwy ac y dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol iddynt.
- Ailadroddodd y Pwyllgor ei gefnogaeth i'r adolygiad o'r galw am dai o du pobl oedrannus, mater a oedd wedi'i ystyried yn y cyfarfod blaenorol. Amcan pennaf yr adolygiad oedd mesur y defnydd a wneir ar hyn o bryd o dai preifat a chymdeithasol sydd wedi'u cynllunio neu eu haddasu i'w defnyddio gan bobl hn, a'r gofal a'r cymorth a ddarparir ar hyn o bryd sy'n seiliedig o fewn lle byw. Teimlid y byddai safon y gofal a gaiff yr henoed mewn tai gwarchod ac mewn cartrefi gofal preswyl o reidrwydd yn chwarae rhan sylfaenol yn yr adolygiad. Ymrwymodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yngln â'r angen i'r Strategaeth ar gyfer yr Henoed roi sylw neilltuol i dai. Pwysleisiwyd yr angen i edrych ar gynlluniau cyffelyb a ddatblygwyd mewn gwledydd eraill i helpu pobl hn i fyw yn annibynnol.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â phrosiectau ymchwil, a fyddai'n angenrheidiol er mwyn tywys argymhellion y Comisiwn Digartrefedd yn eu blaen. Roedd nifer o brosiectau wedi'u nodi, a fyddai o gymorth i fynd i'r afael â digartrefedd a'r rhai sydd heb do uwch eu pen. Roedd y Comisiwn Digartrefedd i fod i ystyried pa flaenoriaeth i'w rhoi i brosiectau yn ei gyfarfod nesaf a oedd i'w gynnal ar 23 Gorffennaf 2001. Teimlid y byddai monitro a chloriannu'r cynllun peilot a oedd ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn help i oleuo penderfyniadau pellach yngln â'r gwasanaethau cefnogi sy'n ofynnol i gynorthwyo pobl ddigartref.
- Roedd yr aelodau o blaid parhau â'r cyllid er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gynnal asesiadau lleol o'r angen am dai. Teimlid y gallai'r asesiadau hyn fod yn ffynhonnell ddata werthfawr i gynorthwyo â'r gwaith o dywys y Strategaeth Dai Genedlaethol yn ei blaen a goleuo'r broses gyllidebol.
- Croesawai'r Pwyllgor y grant a ddarparwyd er mwyn cynnal arolygon cyflwr stoc ar dai awdurdodau lleol. Teimlid y byddai hyn yn help i ddarparu gwybodaeth fanwl, gyfoes i awdurdodau lleol am gyflwr eu stoc gan eu galluogi i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â gwaith sydd wedi cronni a gwaith atgyweirio. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad interim ar yr arolygon cyflwr stoc tai.
- Ymrwymodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynnwys y materion isod yn y rhaglen ymchwil tai: y niferoedd sy'n manteisio ar gynlluniau Perchnogaeth Cartrefi Cost

Isel; Tai Amlbreswyliaeth; y Rheoliadau Adeiladu; tai cyngor dros ben a'u heffaith ar gyllidebau awdurdodau lleol; ac effaith trosglwyddo stoc tai.

7.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y rhaglen ymchwil tai yn ei blaen. Ymrwymodd y Gweinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y data a gynhyrchir gan y rhaglen ymchwil tai maes o law.

**Eitem 8: Archwiliad o'r gwasanaethau cynghori ym maes tai – Ystyried yr adroddiad:** LGH-11-01 (p.5)

8.1 Dywedodd y Gweinidog fod yr archwiliad wedi'i gomisiynu er mwyn canfod beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd o safbwynt gwasanaethau cynghori ym maes tai yng Nghymru ac i wneud argymhellion i'w gwella. Roedd yn gyfraniad pwysig tuag at gyflawni'r nod a amlinellwyd yn y Strategaeth Dai Genedlaethol o ddarparu gwasanaethau cynghori o ansawdd uchel i bawb yng Nghymru yngln â thai.

8.2 Dywedodd y Gweinidog y byddai'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad i wella mynediad at gyngor yngln â thai a gosod safonau i'r ddarpariaeth yn cael eu tywys yn eu blaen gan y Cynulliad Cenedlaethol ar y cyd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sydd â chyfrifoldeb statudol i hyrwyddo gwasanaethau cynghori annibynnol. Dywedodd y câi’r adroddiad ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori yn fwy eang cyn gynted ag sy'n bosibl.

8.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd y Pwyllgor brif gasgliadau'r adroddiad a chroesawai'r argymhellion. Teimlid bod angen gwella'r ddarpariaeth bresennol yn sylweddol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd ar gael yn hwylus i bawb sy'n ceisio cyngor. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd a'r rhai sydd heb do uwch eu pen.
- Codwyd pryder gan yr aelodau fod llawer o'r ddarpariaeth gynghori ym maes tai wedi'i lleoli mewn trefi sy'n golygu nad yw o fewn cyrraedd i lawer o unigolion a bod iddi oblygiadau o ran costau teithio. Awgrymwyd y byddai unedau cynghori teithiol yn dod â'r ddarpariaeth o fewn cyrraedd i fwy o bobl ac y byddai o fudd arbennig i bobl mewn ardaloedd gwledig.
- Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig sefydlu trefniadau penodol i hyrwyddo gwasanaethau cynghori yngln â thai yng Nghymru. Fodd bynnag, cytunwyd nad oedd angen creu cyrff newydd i wneud hyn, ac y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol weithio gyda'r sefydliadau sy'n bodoli'n barod gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ymarfer da mewn mannau eraill i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth genedlaethol.
- Cytunai'r aelodau ei bod yn bwysig i bobl allu cyrchu at gyngor annibynnol yngln â thai a chanmolwyd gwaith asiantaethau gwirfoddol megis Shelter Cymru. Awgrymwyd y gellid ehangu'r Cynllun Hawliau Lles, sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd ar y cyd â'r Canolfannau Cynghori, a'i ddatblygu er mwyn helpu i ddarparu cyngor yngln â thai. Nod y cynllun hwn oedd sicrhau bod gwybodaeth am hawliau lles a chyngor yngln â budd-daliadau ar gael yn

fwy eang a hwylus i gleifion.

8.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth yn ystod yr ymgynghoriad yngln â'r archwiliad o'r gwasanaethau cynghori ym maes tai yng Nghymru.

**Eitem 9: Adolygiad polisi o adfywio cymunedol – Ystyried y cylch gorchwyl drafft a'r cynllun prosiect: LGH-11-01 (p.6)**

9.1 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau'r Pwyllgor ar y cylch gorchwyl drafft a'r cynllun prosiect ar gyfer yr adolygiad polisi o adfywio cymunedol sydd wedi'i gynllunio.

9.2 Cytunai'r aelodau y dylai'r adolygiad polisi gynnwys archwiliad o'r strwythurau ariannol sydd ynghlwm wrth raglenni yn ogystal â'r partneriaethau a sefydlwyd i gynorthwyo adfywio cymunedol. Dywedodd y Cadeirydd y câi'r rhain eu hychwanegu at y cylch gorchwyl.

9.3 Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hollbwysig ymgynghori yn eang yn ystod yr adolygiad polisi. Roedd yn bwysig ennyn perthynas â chymunedau a chynnwys pobl ifanc yn y broses pa bryd bynnag y mae hynny'n bosibl. Nodwyd y câi rhestr o'r rhai i ymgynghori â nhw ei llunio gyda'r bwriad o wahodd ymatebion ysgrifenedig dros yr haf, i'w hystyried yn nhymor yr hydref. Byddid yn cynnwys y Pwyllgor wrth benderfynu pa sefydliadau i'w gwahodd i roi tystiolaeth lafar a phennu'r rhestr o ymweliadau â grwpiau cymuned.

9.4 Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig penodi ymgynghorydd arbenigol a allai roi cyngor annibynnol a helpu i gyd-drefnu'r adolygiad.

9.5 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn llunio cylch gorchwyl drafft diwygiedig, a gâi ei gylchredeg i'r alodau i'w gymeradwyo.

**Eitem 10: Cofnodion cyfarfod 4 Gorffennaf: LGH-10-01 (min)**

10.1 Cytunwyd ar Gofnodion cyfarfod 4 Gorffennaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Gorffennaf 2001**